

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
DYDDIAD	14 Gorffennaf 2022
TEITL	Cyfarfodydd Herio Perfformiad
PWRPAS YR ADRODDIAD	I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.
2. Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, ganllaw herio perfformiad ar gyfer aelodau craffu.
3. Dyma'r meysydd gwaith sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor yma ynghyd â'r misoedd pryd estynnir gwahoddiad i gynrychiolwyr y Pwyllgor fynychu:

Meysydd Gwaith	Pryd
Addysg	Hydref 2022 Chwefror 2023
Economi a Chymuned	Hydref 2022 Chwefror 2023
Cefnogaeth Gorfforaethol	Medi 2022 Mawrth 2023
Cyllid	Hydref 2022 Chwefror 2023

4. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi enwebu dau aelod i gynrychioli'r pwyllgor fesul maes gwaith.**